**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol
Anfonwyd drwy e-bost

Dyddiad | Date: 7 Ionawr 2026

Annwyl Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol,

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27

Fel y gwyddoch, rydym wedi bod yn craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27. Hoffem ddiolch i chi a'ch swyddogion unwaith eto am roi tystiolaeth lafar ar 1 Rhagfyr i helpu i lywio ein gwaith.

Mae copi o adroddiad y Pwyllgor, a osodwyd ar 15 Rhagfyr 2025, ynghlwm wrth y llythyr hwn. Hoffem dynnu eich sylw at yr argymhelliad a ganlyn sy'n gysylltiedig â gwaith y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (argymhelliad 7):

> *Argymhelliad 7: 'Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol barhau i gynhyrchu a datblygu allbynnau sy'n helpu i feithrin dealltwriaeth o effaith trethiant datganoledig ar gyllidebau Llywodraeth Cymru, megis y dadansoddiad o newidiadau yn sefyllfa treth net Cymru a gyhoeddwyd fel rhan o ragolygon treth a gwariant datganoledig eleni.'*

Os yn bosibl, byddai'n ddefnyddiol pe gallech anfon ymateb ysgrifenedig atom cyn gynted â phosibl, neu erbyn diwedd tymor y gwanwyn (dydd Gwener 27 Mawrth).

Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i anfon at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg er gwybodaeth iddo.

Yn gywir,



Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.